CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**13.03.23**
**7:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; RY; EY;IW; EO; AR; GW; RJ; TAJ<br>**Ymddiheuriadau:** DP; LMH; JOJ<br>**Yn mynychu:** SWR; Cyng Jackie Lewis |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd JL ddiddordeb ym materion Cynllunio; DAW ym materion Cyllid. . |
| **3** | **Cofnodion 26.1.23**<br>*a)* Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 26.1.23 fel rhai cywir (EO/AR) yn unol a chywiro teipo *(Tud 2 - Ty Cores i ddarllen Ty Croes)*<br>b) Materion yn Codi<br>Holodd EO pam oedd dyddiad y cyfarfodydd wedi newid o gofio cytundeb yng ngyfarfdo 26.1.23 i beidio newid. Nododd y Cadeirydd byddai newid yn hwyluso cyflwyno adroddiadau cyllidol a gosod cyllideb a praesept. Nododd JL nad ydy nos lun yn hwylus i rota y Cynghorwyr Lleol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i newid i Nos Iau cyntaf y mis a dychwelyd i 7pm – cyfarfod nesaf felly 6 Ebrill 2023 am 7pm.<br>Sefydlu Is Bwyllgorau<br>Cytuwyd a'r yr aelodaeth isod:-<br>Is Bwyllgor Cyllid: - JAJ TAJ DAW (Cadeirydd) AR EO RY EY<br>Is Bwyllgor Safleoedd: DP GW IW RJ JOJ (Is-Gadeirydd);LLMH |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Cytundeb Torri Gwair<br><br>Cyflwynodd y Clerc y pedwar tendr ddaeth i law a hyny'n ddi-enw er mwyn sicrhau trylowder.<br><br>Cafwyd trafodaeth eang ac fe ddyfarnwyd CAIS B yn llwyddiannu gan hepgor y mannu lle roedd CAIS CH yn rhagori o ran pris. Cynigiodd TAJ ac fe eiliodd IW – cytunwyd yn unfrydol.<br><br>Clerc i weithredu a sicrhau tystysgrifau a chanolwyr addas.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu ferswin 13.3.23 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>TAJ – nododd bod angen tocio'r coed tu cefn i 1-4 Tan y Foel. Clerc i drefnu<br><br>- Mynegodd ei bryder eto am ddiogelwch y groesfan ar y Stryd Fawr. Nodwyd bod hyn yn flaenoriaeth ar Cynllun Gweithredu Priffyrdd er hyny, cytunwyd i'r Clerc godi'r pryder eto gyda'r swyddogion.<br><br>JAJ – nododd bod y rhwystr ger Ty Fry Bachau heb ei symud er addewid gan CSYM Clerc i gysylltu eto.<br><br>- Cyfeiriodd at y marciau parcio i'r anabl yn y Stesion. Adroddod y Clerc nad yw'r marcio yn union fel agytunwyd – Clerc i wirio gyda'r swyddog CSYM<br><br>- Dywedodd bod malyrio yn y Clwb Peldroed a bod yr Heddlu gyda grant o £250 tuag at gamera cylch cyfyng. CPD yn ymchwilio ymhellach<br><br>RJ – holodd am ddiweddariad ar y cais i osod mainc yn y Fynwent er cof am Mr Kevin Hughes. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod a gweddw Mr Hughes a bod fainc angen ei newid yn y Fynwent. Nododd hefyd bod mainc sbar gan CC Llan. Cytunwyd i gynnig y fainc sbar i Mrs Hughes ei phrynu a bydd mab Mrs Hughes yn hapus i'w gosod. Cytunwyd ar daliad y pris gwreiddiol sef, £445.<br><br>AR – mynegodd bryder eto am sefyllfa parcio yn Stryd Tudor (Y Walk) a nodwyd bod difrodi ceir yno ac ambell fodur heb dreth a MOT. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a John Roberts ynglyn a'r rhain ac i JAJ holi RPO Williams os oes ganddo unrhyw fwriad i sefydlu ardal parcio ger y Bull pan fydd y tai newydd wedi eu cwblhau.<br><br>- Cyferioedd at lanast yn y gerddi ger Fflatiau Twrcelyn. Cytunodd JL i adordd i'r Adran Tai CSYM |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | GW - cyfeiriodd at ardal ger yr hen chwarel ger Tyddyn Bachau a'r posibilrwydd i gael caniatad y perchennog i glirio'r ardal a godo mainc yno fyddai wedyn yn rhwystro dympio sbwriel. Cytunwyd i'r Clerc holi'r perchennog yn y man cyntaf.<br><br>Cytunwyd i'r Clerc holi am unrhyw ostyngiad posib yn nhaliadau trydan ar gyfer y Goleuadau Nadolig gan mai defnydd tymor byr ydi hwn. |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Ionawr (wedi eu cymeradwyo gan y Cadeirydd)**<br>Cyflog Clerc Chwefror & 1 taliad ZOOM (cymeradwywyd 13.3.23 yng nghyfarfod Tendr Torri Gwair) 506.28<br>Wybone – bagiau dal baw ci 122.38<br>Xpose Media – arwyddion Dim Cwn 162.00<br>Scottish Power – trydan CPD 261.18<br>HMRC – cyflog Clerc 157.80<br>Scottish Power – goleuadau Dolig 134.04<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Cyflog Clerc Mawrth & 1 taliad ZOOM 506.28<br>Costau Blynyddol Clerc 550.00<br>Capel Ifan – llogi'r Festri ar gyfer Hyffordiant Diffib 40.00<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £8628.71<br>Cyfrif Cadw: £1440.42 |
| 6. | **Materion Cynllunio**<br>**Cais HHP/2023/46 Tyddyn Goeden Coedana** – dim gwrthwynebiad.<br><br>Holodd JL am fanylder yn ymwenud a chais cynllunio LUE/2023/4 Little Mountain View. Cadarnhawyd mai cae ydi'r safle wedi bod erioed ac nid gardd.<br><br>. |
| 7. | **Materion Safleoedd**<br>• **Cae Gofeb/Ysgol Haearn –** rhannod JAJ daflen yn amlinellu gwariant Cronfa Ysgol Haearn ers 2009. Diolchwyd iddo am weinyddu'r gronfa a nodwyd y gwaith da sydd wedi cael ei gefnogi'n ariannol i helpu plant ac ieuenctid y dalgylch.<br><br>• **Unedau Tan y Foel –** gwaith clirio cwteri i'w wneud. Clerc i ofyn i AT Lewis.<br>. |
| 7 | **Unrhyw Fater Arall -** Dim i law.<br><br>Cais i law trwy MON CF i gael lleoliad i fachgen ifanc gael profiad |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | gwaith am bythefnos – 30 awr yr wytyhnos. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cefnogi'r cais gan cyflywno'r darnau gwaith canlynol:<br>- Clirio safle Clwb Bowlio, chwynu, twtio a gwaredu sbwriel. Cytunodd RJ i fod yn berson cyswllt ac i'r Clerc roi ei rif ffon i Môn CF<br>- Llenwi tyllau ym Mynwent Santes Fair gyda phridd o Bwythyn yr Onnen. Cytunodd TAJ i fod yn berson cyswllt ac i'r Clerc roi ei rif ffon i Môn CF<br>- Os bydd oriau yn weddill mae gwaith i'w wneud yn y Clwb Peldroed – cytunodd JAJ i fod yn berson cyswllt ac i'r Clerc roi ei rif ffon i Môn CF<br>Clerc i gysylltu a Mon CF i sicrhau Yswiriant ac Asesiadau Risg addas a pherthnasol i'r gwaith.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.25pm* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383